# YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

*Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.*

CYFROL XLV. AWST, 1945. RHIF 8.

## Arwr Rhyddid y Wasg.

WILLIAM HONE (1780—1842).

DYN hynod, ond un o ddynion mwyaf talentog ei ddydd, yng nghyfnod rhyfeloedd Bonaparte, oedd William Hone, a gadwai luesty yn Graeechurch Street, Llundain yn niwedd ei oes.

Dechreuasai ei fyd yn Bath ond symudodd ei rieni i Lundain pan oedd ef yn fachgen a gwnaed clerc cyfreithiwr ohono yn ddeg oed. Bu deng mlynedd yn swyddfa cyfreithiwr o fudd mawr i'w feddwl ddysgu meistroli y mater mewn llaw a'i osod allan mewn modd eglur i eraill fedru ei weld. Yn ugain oed dewisodd droi yn llyfrwerthwr ac argraffydd, a chyhoeddodd nifer o lyfrynnau yn ymwneud â chyflwr truenus pobl anffodus mewn sefydliadau cyhoeddus ac yn ceisio cynhyrfu'r awdurdodau ynddynt i ddiwygio'r cyfryw mewn ysbryd dyngarol. Ni fu fawr o lwyddiant i'w anturiaeth yn y pymtheng mlynedd cyntaf o'i lafur ac nid oedd ganddo lawer o ogwydd y pryd hwn at bethau crefyddol.

Yn nechrau 1817 ysgrifennodd nifer o watwar-gerddi, a gwnaeth Cruikshank, a oedd y pryd hwnnw yn anadnabyddus, ddarluniau doniol i'w hargraffu drwyddynt i bwysleisio trwsgleiddiwch y disgrifiadau a pheri chwerthin. Diben y canu newydd hwn oedd ennill rhagor o gynhaliaeth i'w deulu lluosog. Tri o'r testunau oedd *Catecism Eglwys Loegr*, *Credo'r Apostolion*, a *Chredo Athanasius*.

Ar Ragfyr 18, 1817 gorfu iddo sefyll ei braw, o flaen y Barnwr Abbott, am gabledd, sef "iddo achosi bod y grefydd Gristnogol yn mynd yn destun gwawd"; trannoeth cyhuddwyd ef o droi y "Litany," sef Rhan addoliadol o'r *Llyfr Gweddi*, yn wawdgerdd; a thradwy wynebodd ar ei drydydd praw am "daflu dirmyg ar Gredo Athanasius." Y Barnwr yn y ddau brawf olaf oedd Arglwydd Ellenborough, sef Prif Arglwydd Farnwr y Llywodraeth.

Bu'r prawf tridiau hwn yn foddion i wyntyllu gwallau pwysig yng nghyflawniad swydd y Barnwr yn yr amser hwnnw ac i gychwyn cyfnod newydd mewn rhyddid barn drwy'r Wasg. Â'i areithiau mewn hunan-amddiffyniad y mae a wnelom yn fwyaf neilltuol, er y buasai ymdrin a'i waith fel awdur y *Testament Newydd Apocryffaidd*, *Hen Chwareuon Gwyrthiol Saesneg* (ffrwyth cred yn y llyfrau apocryffaidd), *Llyfr Pob Dydd*, sy'n llawn o wybodaeth am bethau anarferol a chwithig, ac wedi ei droedigaeth gan Edward Irving, ei waith fel ymneilltuwr, golygydd a phregethwr yn King's Weigh House Chapel, a'i brofiadau mewn carchar fel dyledwr, lle y cynyrchodd rai o'i brif orchestion, yn ddiddorol.

Yn ei amddiffyniad o flaen y llys siaradodd am chwe awr y dydd cyntaf, am saith awr yr ail ddydd, ac wyth awr y trydydd dydd. Yr oedd hyn ynddo'i hunan yn rhyfeddod a chofio mai ar ymborth y carchar y bu fyw am chwe mis cyn y prawf, ond yr oedd ei wybodaeth o'r gyfraith ac o hanes llenyddiaeth ysgafn y byd Saesneg yn agoriad llygad i'r Barnwyr a'r erlynydd cyhoeddus, a'i allu ymresymol yn eithriadol. Cyhuddid ef gan Syr Samuel Shepherd, yr Attorney-General, ar y tir fod y grefydd Gristnogol yn rhan o gyfraith y tir yn Lloegr, a bod y gwasanaeth yn y Llyfr Gweddi yntau hefyd yn rhan o ddeddfau cyfreithlawn y wlad, ac am hynny fod amcanu gwneud dirmyg o'r rhai hyn yn drosedd yn erbyn awdurdod ganolog y wladwriaeth. Darllenodd yn gyhoeddus ddarnau o'r wawdgerdd ar y *Catecism*, a bu chwerthin calonnog yn y llys am ben y direidi yn y gerdd, ac esbonnid hynny gan y Barnwr fel ategiad i gywirdeb y cyhuddiad. Dechreuodd Hone ei amddiffyniad trwy adrodd y fath driniaeth gâs ac annheg a gawsai oddiar law gwŷr y llys a gweision y wlad yn ystod ei chwe mis yn y carchar cyn y praw, ac meddai wrth y rheithwyr, "nid fel eglwyswr neu ymneilltuwr yr ydych i'm pwyso, ond fel Cristion. Mae gwawdgerddi mor hen ag yw'r argraffwasg, ac y mae dau fath o wawdgerdd, un i ddiddori, ac un i ddilorni. Nid wyf yn euog o'r olaf. Fe wnaeth Luther wawdiaeth o'r adnod gyntaf yn y Salm gyntaf, ac fe wnaeth Latimer â darn o'r Ysgrythur yr un peth, a Deon Caergaint â rhan o'r *Llyfr Gweddi* ac o bennod gyntaf o *Fathew*, a John Reeves, golygydd yr *Oracle*, papur y llywodraeth, yr un peth â 'Te Deum,' a Mr. Channing, aelod o'r Cabinet, yntau â darn o'r Beibl, ac ni wnaed sylw anffafriol o'u gwaith. Onid naturiol i ŵr disyml fel y fi ddilyn esiampl gwŷr o safle yn yr Eglwys ac yn y wladwriaeth?" Yn y fan hon fe dorrodd y Barnwr arno a gorchymyn iddo beidio â dyfynu rhagor o fater y dirmygu crefydd, ac ebai yntau, "F'Arglwydd, mae eich cais o'r un natur ag eiddo Pab Leo X i Luther pan ddywedodd "er mwyn y nef, peidiwch â sôn rhagor am y maddeuebau a'r mynachdai ac mi a roddaf fywoliaeth dda i chi,' er mwyn ei lesteirio yn ei waith. Rhaid mynd ymlaen i ddyfynu y rhain neu ni allaf fy amddiffyn fy hun."

Er i'r Barnwr gyfarwyddo'r rheithwyr i'w gael yn euog, dieuog oedd eu dedfryd er mawr foddhad i'r cyhoedd.

Drannoeth y Barnwr oedd y Prif Arglwydd Farnwr, a thaflu dirmyg ar y Litani oedd y cyhuddiad. Prif linnell ymresymiad yr erlynydd oedd fod gwneud pethau cysegredig yn gyfryngau chwerthin yn drosedd yn erbyn crefydd a diogelwch gwlad. "Onid yw hyn," meddai, "yn drosedd, nid oes dirmyg o unrhyw fath ar grefydd gwlad a'r llyfrau santaidd yn agored i'w restru gyda phethau cospadwy." Rhwystrwyd llawer ar Hone gan y Barnwr yn ystod ei araith amddiffynol, oblegid dyfynai ddarnau o wawdgerddi a gyfansoddid gan glerigwyr, gwladweinwyr, cyfreithwyr a llenorion, rhai ohonynt yng ngwasanaeth y llywodraeth a oedd yn dilorni y Pengryniaid a'r Piwritaniaid a'u daliadau, ac a gynrychiolid yn ei oes ef gan ddilynwyr iddynt, ac eto ni flinid yr awduron yn eu cyfnod hwy na'r rhai a oedd eto yn fyw gan yr awdurdodau. Yr oedd y dorf yn y llys wrth ei bodd yn gwrando ar y dyfyniadau ac yn cymeradwyo. Dywedai'r erlynydd fod "amcan" awdur y gwawdgerddi yn ei gondemnio neu yn ei ryddhau, ond mynnodd y Barnwr dorri ar yr amddiffyniad i gyhoeddi fod "tuedd" y gwawdgerddi yn ddigon i gyfiawnhau condemnio'r awdwr, ac ebai Hone mewn ateb, "Ei arglwyddiaeth sy'n y gadair yn y llys hwn, ond nid i'm rhoi i ar braw. Y chwi, y rheithwyr yw fy marnwyr i. Y chwi sydd i'm rhoi ar fy mhraw, ac i chwi yr wyf yn ostyngedig yn ymddiried fy achos. Chwi gymerasoch lw i wneud chwarae teg rhyngof fi a'r Goron, a chwi sydd i benderfynu beth oedd fy 'amcan' ac i ddehongli'r gwahaniaeth rhwng 'amcan' a 'thuedd.' Fe all y duedd fod yn anffodus, ond a oedd yr amcan yn ddrwg? Hwnyna yw cnewllyn y mater, a chraidd y ddadl." Er i'r Barnwr ddadlau'n gryf dros ddedfryd o gondemniad ei gael yn ddieuog wnaeth y rheithwyr.

Drannoeth eto safai o flaen yr un Barnwr a chwmni arall o reithwyr ar y cyhuddiad o gablu "Credo Athanasius." Gwrthodwyd i'r cyhuddedig ei gais am ychydig funudau o seibiant i amlinellu ei amddiffyniad, ond yr oedd y Barnwr yn fodlon gohirio'r achos. "Nid dyna a geisiais" ebai Hone, ond meddai, "Yr wyf yn falch o'ch gweld yn eistedd ar fy achos heddiw, f'arglwydd, canys ymboenaf o dan y teimlad i mi gael cam oddiar eich llaw y ddoe, peth na ddychmygais y gallai ddigwydd. Os bydd i'ch arglwyddiaeth deimlo mai angenrheidiol yw i chwi ddweud eich barn, gobeithio y gwnewch hynny mewn ysbryd diduedd a phwyllog." Ond daliai y Barnwr ati i'w rwystro yn ei araith amddiffynol, ac o'r diwedd mynegodd yntau ei deimlad yn y geiriau hyn, "F'arglwydd, teimlaf fod yn rhaid imi ddal fy nhir yn y fan hon. Ni wn pam y teimla eich arglwyddiaeth fod yn rhaid i chwi dorri ar fy nhraws, ond gwnaethoch hynny lawer gwaith y ddoe, a dywedasoch na wnaech ragor o hynny, ac eto chwi wnaethoch ddengwaith yn

waeth ar ôl addo na chyn hynny. Foneddwyr y rheithwyr, y chwi sydd yn fy ngosod ar fy mhraw heddiw : nid yw ei arglwyddiaeth yn farnwr arnaf. Y mae ef yn eistedd yn ei gadair i dderbyn eich dedfryd chwi. Ni soniaf am yr hyn a wnaeth ei arglwyddiaeth ddoe, ond gobeithiaf y rhydd ei farn yn bwyllog ac yn ddiragfarn heddiw, heb geisio trwy air neu ystum wneud dim y gellid ei ddehongli fel ymgais i ddylanwadu arnoch i feddwl fel y fo. Gobeithiaf na lithir y rheithwyr i roi dedfryd o 'euog'." Wedi pentyrru dyfyniadau o awduron yn cynnwys Archesgob Tilloston ac esgob Llundain ar *Gredo Athanasius*, ac wyth awr bellach wedi mynd heibio er pan dechreuodd, torrodd y Barnwr ar ei draws pan ddechreuodd ddyfynu o Esgob Carlisle, "Yn enw'r Mawredd," ebai'r Barnwr, "cymrwch drugaredd arnom." "Mi wnaf eich arglwyddiaeth," atebodd Hone, ac eisteddodd i lawr. Mewn ugain munud y ddedfryd oedd "dieuog," a Hone yr wron nid yn unig y dorf ond llenorion y wasg yn gyffredinol.

Casglwyd £3,000 i'w helpu i gwrdd a chost y llys a'i osod ar ei draed yn amgylchiadol eilwaith. Yr oedd yn chwilotwr diflino i bethau hynod a hynafol a chyhoeddodd rai llyfrau sy'n aros heb eu hafal yn eu maes arbennig. Ond ei safiad dros ryddid i feirniadu daliadau o bob math drwy'r Wasg yn y praw y penderfynodd llywodraeth y dydd ei gychwyn arno a'i barhau yn wyneb y ffaith fod deddfau gwlad ddemocrataidd a'u diben i ddiogelu iawnderau ac nid i amddiffyn breiniau gwŷr difudd a wnaeth y dyfodol mor ddyledus iddo.

# Y Gymdeithas Gyffredinol.

## Y Cyrddau Blynyddol.

(*Parhad o dudalen 83, rhifyn Mehefin*).

Bore dydd Iau cyfranogwyd o'r Cymun Bendigaid, a gweinyddwyd gan y Parchedig Douglas W. Robson, B.D. (Chesterfield). Yn ei araith pwysleisiodd ystyr y gwasanaeth. Oddifewn i'r Eglwys Gristnogol ceir llawer o sectau, ac nid y lleiaf ymhlith achosion y rhaniadau hyn yw'r esboniad a roddir ar seremoni'r Cymun. I'r Pabyddion y mae'n ganolfan yr addoli ; yng nghyfeillach y Crynwyr ni theimlir yr un angen am y ddefod ; I rai eglwysi y mae'n anghenraid fel arwyddlun aelodaeth o'r gynulleidfa ; i eraill y mae'n gymorth ond nid yn anghenraid. Ymhlith ein heglwysi ceir arferion a thraddodiadau gwahanol. Yn rhai ohonynt gweinyddir y Swper yn amlach nag mewn eraill, ond ynddynt i gyd act o goffhâd yw gwasanaeth y Cymun, yn

mynegi ein cariad at Iesu a'n ffyddlondeb i'w esiampl yn ogystal a'n gwerthfawrogiad o bawb a fu byw a marw yn ei ysbryd ef. Y mae'n wasanaeth o ddiolch am ddysgeidiaeth Iesu ; y mae'n act o ymgysegriad i wasanaethu yn ysbryd Iesu.

Defnyddiwyd y llestri cymun a gafodd y Parchedig C. J. C. Grieve, B.A. at wasanaeth cynulleidfa Highgate gan eglwysi'r Unol Daleithiau fel gwerthfawrogiad o'i ymweliad â hwy yn ddiweddar.

Darlith Essex Hall.

Traddodwyd y ddarlith eleni gan y Prifathro R. Nicol Cross, M.A., Rhydychen. Ei destun oedd "Idealism and Realism." Y mae erbyn hyn mewn print, ac yn gyhoeddedig gan y Lindsey Press—pris swllt.

Cyfarfodydd yr Adrannau.

*Cynghrair y Gwragedd.*—Agorwyd trwy weddi gan y Parchedig Ethel Kay (Richmond). Cyflwynodd y llywydd, Mrs. Severs, yr adroddiad blynyddol. Diolchwyd i'r swyddogion a'r pwyllgor gan Mrs. Stewart Carter (Mansfield). Ail-etholwyd Mrs. Severs yn llywydd. Cytunwyd mai un o dascau cyntaf y Cynghrair fydd ail-godi'r League Hostel yn Llundain. Dylid hefyd gynnal cynhadledd ar fyr i ystyried gwaith cyffredin y Cynghrair. Cyflwynwyd dymuniadau cynnes ac addewid am help llaw oddiwrth y chwiorydd yn yr Unol Daleithiau gan y Parchedig C. J. C. Grieve B.A. (Highgate). Anerchwyd y cyfarfod gan Miss Ware ar ei gwaith fel un sy'n gofalu am gysuron y gweithwyr mewn ffatrioedd.

*Cwrdd y pregethwyr lleyg.*—Cadeiriwyd gan Mr. Frank S. Johnson, yn lle Dr. Harman (sydd erbyn hyn wedi ein blaenu). Cyfeiriwyd at farwolaeth H. G. Chancellor a G. G. Armstrong. Cyfeiriwyd hefyd at gyhoeddi rhifyn cyntaf *The Lay Preacher.* Anerchwyd y cyfarfod gan y Prifathro Holt ar "Developments in the Work of Lay Preachers."

*Cwrdd y gweinidogion.*—Cadeiriwyd gan y Parchedig Arnold H. Lewis, B.D. (Shrewsbury). Anerchwyd gan Dr. R. W. Wilde, M.A., B.Sc. (Belfast). Ei bwnc oedd llywodraeth eglwysig a gweithrediad y drefn henadurol yn yr Iwerddon.

Cwrdd Cyhoeddus.

Cynhaliwyd hwyrddydd Iau, a siaradwyd ar "Some Aspects of Reconstruction" gan Arglwydd Woolton, C.H. Cadeiriwyd gan y Parchedig E. G. Lee, Golygydd *The Inquirer.* Bwriodd Arglwydd Woolton gipdrem ar ddwyster y problemau sy'n wynebu Prydain a'r Cyfandir wedi'r Rhyfel. Cofiai am y gobeithion am Brydain Newydd wedi'r Rhyfel o'r blaen. Gwelwyd dadrithio'r gobeithion hyn. "Llawer ac amrywiol oedd yr achosion a fu'n arwain i'r

cyflwr gofidus hwn ; ond yn ddiamau yr oedd gwreiddyn y drwg yn y cyfrif o werthoedd. Wrth fwrw golwg yn ôl, fy nghasgliad i yw fod y gwerthoedd ysbrydol, i raddau helaeth, yn cael y lle eil-radd yn y cyfnod hwn. . . . Mewn profedigaeth a galar daethom yn genedl gref. Ai dim ond mewn adfyd y gallwn ni gynnal yr ysbryd hwn ? Dyma'n test heddiw. Er mwyn cadw'r ysbryd hwn ym mha ffordd y mae i ni fyned ? Dyma'r mwyaf anodd o broblemau'r ail-adeiladu."

Ei waith arbennig ef, fel Gweinidog y Goron, oedd bod yn Archadeiladydd—nid yn adeiladydd ond yn Archadeiladydd sy'n paratoi'r cynlluniau. Soniodd am sylfaen y cynlluniau hyn. Dechreuwyd gyda'r Bil Addysg. "Rhaid cael sylfaen ysbrydol i fyd newydd. Credaf na ellir sylweddoli ein gobeithion heb gynyddu ein parch tuag at athrawiaeth crefydd, ac yn enwedig, tuag at athrawiaeth crefydd yn y cartref.

Dywedodd fod yn rhaid i'r Brydain Newydd wrth gorff iach, a'r amser i'w geisio ydyw blynyddoedd cyntaf bywyd. Cyfeiriodd at anffodion teuluoedd pan ddaw arnynt "ddyddiau drwg" oherwydd amgylchiadau sydd tu hwnt i'w gallu. Anghenraid ydyw cynllunio i gyfarfod a'r anffodion hyn. Soniodd hefyd am broblemau arbennig masnach a diwydiant. "Ceisiais amlinellu rhai—yn wir y mwyaf—o'r problemau sy'n ein hwynebu yn y blynyddoedd nesaf. Cyfarfyddwn â hwy yn y gred ddiysgog yn ein gallu i'w dadrys yn y genhedlaeth hon. Dangosodd hanes y chwarter canrif diwethaf fod ysbryd dyn yn fwy na'i ddoethineb gwleidyddol."

Y Gynhadledd.

Cynhaliwyd bore dydd Gwener, a'r testun oedd "The Challenge of Anglo-American Co-operation." Cadeiriwyd gan y Parchedig E. Rosalind Lee, M.A. (De Cymru), a siaradwyd gan y Parchedig C. J. C. Grieve, B.A. (Highgate). Newydd ddod yn ei ôl o'r Unol Daleithiau y mae Mr. Grieve. Rhoddodd bictiwr byw o weithgarwch y mudiad Undodaidd yno, a dywedodd beth yr oedd dynion yn feddwl yn yr eglwysi. Dilynwyd ef gan Mr. M. Phillips Price, Aelod Seneddol dros ranbarth Forest of Dean. Aelod o hen deulu Undodaidd, yr oedd yn y cyfarfod fel cynrychiolydd cynulleidfa Gloucester. Yr oedd yn un o ychydig Brydeinwyr a welodd y Chwyldro yn Rwsia a'u llygaid eu hunain. O 1914 hyd 1918 ef oedd gohebydd y *Manchester Guardian* yn Rwsia, a thrwy ei eiriau y daeth y wybodaeth decaf a'r mwyaf diduedd am y digwyddiad mawr hwnnw i'r wlad hon. Testun Mr. Price oedd "Ni a Rwsia." Dywedodd, "Gwelsom oddiar 1933 ffagliad o'r ffurf fwyaf amrwd o'r gredo Baganaidd sydd wedi diorseddu Duw a dymchwel pob deddf foesol yn enw cynnydd materol—hyd ei dinistr eithaf rai dyddiau yn ôl. Ac oni ddysgwn y wers, er ei farw, bydd Hitler eto'n fyw yn enaid Ewrop.

Edmygir Prydain yn awr yn fwy nag erioed yn ei hanes, oherwydd y mae'n esiampl fyw o genedl a ddaeth drwy Lyn Cysgod Angau heb golli ei hunan-lywodraeth a'i hen freiniau. Yr ydym yn esiampl ddisglair i eraill. Ond ein perygl yn y safle ydyw anwybyddu ein gwendidau, mynd yn gysglyd ac yn ddiddychymyg unwaith eto. Enillasom frwydr rhyddid personol. Nid enillasom eto'r frwydr am ryddid economaidd. Drwg mawr cymdeithasol yr oes hon yw ansicrwydd. Y mae perygl diweithdra ar radd enfawr, yr ofn (un o bedwar ofnau'r diweddar Arglwydd Roosevelt), ofn tlodi yng nghanol digonedd.

Addawodd y gorthrymwyr ar y cyfandir hapusrwydd i'w pobl ond iddynt werthu eu rhyddid, fel y proffwydodd Dostoevsky. Safasom yn y gorffennol dros ryddid, ond gadawsom i'n pobl gael eu llyfnu'n ddiangen gan dlodi a newyn. Ein tasc yw trefnu cymdeithas fel y diddymir ofn, angen a thlodi, a dangos i gyfandir Ewrop, ac yn enwedig i'r Ellmyn truenus a gorchfygedig, y gellir cyfuno rhyddid ysbrydol a hawddfyd materol—mewn gair, bwrw allan yr ysbryd drwg y rhybuddiodd Dostoevsky y byd amdano.

Yn y tasc hwn y mae gan ein Mudiad Undodaidd ran bwysig. Er mor fach ein rhif, y mae ein dylanwad yn fwy nag y tybiwn. Canys trwy bregethu crefydd rydd o ddogma ac o'r ofergoelion a ddaeth i mewn i Gristnogaeth yn yr oesoedd cynnar, buom yn help i greu'r safbwynt modernaidd mewn eglwys a chapel drwy'r wlad yn gyfan.

Hyd nes y bydd y meddwl dynol yn rhydd o etifeddiaeth wael y gorffennol ni allwn ni ymosod yn llwyddiannus ar broblemau'r dyfodol. Ond ni all Undodiaeth ei chyfyngu ei hun i symud ymaith rwbel y gorffennol. Rhaid iddi gyfrannu tuag at ddadrys problemau dynolryw yn awr y fuddugoliaeth hon—i gadw y breiniau a ddaeth i ni drwy ein gorffennol Protestannaidd, a diddymu eisiau, tlodi, ac ofn o'r byd. Dyna wers y gallwn ni ei dysgu i'r Almaen orchfygedig.

Ond mwy pwysig fyth, hwyrach, yw'r ddealltwriaeth rhyngom ni a phobl Rwsia. Y mae dynoliaeth naturiol pobl Rwsia, ac absenoldeb teimladau cenedlaethol drwg, yn gefndir da i ddealltwriaeth.

Gall y Rwsiaid ddysgu oddiwrthym ninnau werth cymeriad unigol a rhyddid personol, a gallwn ninnau ddysgu trefnu cymdeithas oddiwrth eu greddfau cymdeithasol cryfion hwy. Nid oes agwedd ar hanes cymdeithasol y dydd heddiw, hwyrach, sy'n fwy pwysig ei ganlyniadau na'r cyswllt rhyngom a phobl Rwsia. Gallant gyda'i gilydd gyfrannu tuag at ddadrys problem Almaen yng nghanolbarth Ewrop. Y mae o bwys i ni fynd at y gwaith ar unwaith."

Terfynwyd y cyfarfod—yr olaf yn y gyfres—gan Dr. J. Cyril Flower, M.A. (Ringwood) a draddododd anerchiad ar eiriau Esaia, "Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y

ddaear isod : canys y nefoedd a ddarfyddant fel mwg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant meirw ; ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd."

# Y Gymanfa Ganu.

UNDEB CEREDIGION.

CYNHALIWYD y Gymanfa eleni eto yng Nghapel Soar, Llanbedr-pont-Steffan, ar Fehefin 11. Er fod yr hin dipyn yn anffafriol a'r anawsterau teithio hefyd y lled annymunol daeth tyrfa anarferol ynghyd, a'r capel eang yn orlawn drwy'r dydd.

Yr oedd cwrdd y bore'n gyfyngedig i'r plant, a chawsom ganu tlws ganddynt. Arweiniwyd y defosiynau gan y Parchedig A. J. Martin, B.A., a llywyddwyd gan Mrs. A. Jones Rees, Llanbedr. Adroddwyd yr emynau'n dlws iawn gan y plant canlynol : Peter Davies (Brondeifi) ; Eira Gwen Evans (Graig) ; Margaret Rogers (Capel y Fadfa) ; Ivy Mead (Capel-y-Bryn) ; Jean Griffiths (Rhydygwin) ; a Nell Davies (Cribyn).

Dechreuwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parchedig D. Jacob Davies, B.A., a llywyddwyd gan Mr. J. C. Jones, Bryn Teifi. Yr oedd y côr mor lluosog ag erioed, a'r lleisiau yn cydbwyso mewn cynghanedd dda ac effeithiol. Amlwg ydoedd absenoldeb y bechgyn ieuainc, ond gwnaeth y *sopranos* a'r *altos* y golled i fyny yn gyflawn. Y mae'r *sopranos* yn deilwng o gymeradwyaeth am eu canu urddasol a bywiog. Yr oedd y cyflenwad o'r lleisiau i gyd yn arddangoseg o waith ffyddlon y rhagbaratoadau.

Dechreuwyd oedfa'r hwyr gan y Parchedig D. James, Llanybydder, a llywyddwyd gan yr Henadur Josiah Jones, Y.H., Garthowen. Diweddwyd y dydd mewn cân a moliant a saif ar feddwl pawb a oedd yno am amser maith. Canwyd y *Chorus*—"We never will bow down—yn effeithiol iawn, a chanwyd "The Lord is King" gan y plant.

Trefnydd y dydd oedd y Parchedig S. E. Bowen, a gwnaeth ei waith yn foddhaol iawn. Yr arweinydd oedd Mr. Idris Griffiths, F.R.C.O., Llanelli, ac arweinyddion y *rehearsals* oedd Mr. Ewart Evans ( Capel y Groes) a Mr. James Thomas (Cwmsychpant). Yr organyddion oedd Mr. Ted Morgan (Llandysul), ar ddydd y Gymanfa, a Mrs. Jenkins (Capel y Groes) a Miss Evans (Llandysul) yn y *rehearsals*. Cariwyd allan holl drefniadau'r rhaglen gan Mr. Dan Davies, ysgrifennydd y pwyllgor.

# Coleg Caerfyrddin.

PRIFATHRO W. S. JONES, M.A., M.Sc. YN YMNEILLTUO.

AR Fehefin 27 daeth cynulliad da i'r Cwrdd Gwobrwyo blynyddol, yr Henadur H. Bailey, O.B.E. yn llywyddu. Pwyso a mesur gwaith y flwyddyn, yn bennaf, yw diben y cyfarfod hwn, ond eleni yn lliwio'r ymdrafodaeth i gyd yr oedd y ffaith fod y Prifathro W. S. Jones yn ymneilltuo o'i swydd.

Etholwyd Mr. Watkin Samuel Jones, M.A., M.Sc. i'r swydd ar farwolaeth y Parchedig J. Park Davies, M.A., B.D. yn 1937. Cyflawnodd waith rhagorol mewn cyfnod anodd yn hanes y Coleg. I ddathlu dau canmlwydd a hanner sefydlu'r Presbyterian Fund yn 1939 penderfynwyd helaethu a moderneiddio adeiladau'r Coleg. Cyfrifid y gost pryd hynny yn £4,000. Ar ysgwydd y Prifathro y disgynnodd y baich. Torrwyd y cynllun, am y tro, gan y rhyfel, ond bwriedir cychwyn ar y gwaith cyn gynted ag y ceir rhyddid i wneud hynny ar derfyn y rhyfel.

Mab y diweddar Barchedig R. C. Jones, gweinidog Caeronnen a Brondeifi. Cafodd Mr. W. S. Jones yrfa golegol ddisglair. Anrhydeddwyd ef a gradd M.A. gan Brifysgol Rhydychen. Ym Mhrifysgol Cymru enillodd y gradd B.A. ac M.Sc. Addysgwyd ef yn Ysgol Coleg Dewi Sant, Llanbedr ; Ysgol Ramadegol, Llanybydder ; Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin ; Coleg Aberystwyth ; a Choleg Bangor. O 1907 hyd 1912 bu'n gynorthwywr i'r diweddar Athro Syr William Somerville, School of Rural Economy, Rhydychen. Yn 1913 apwyntiwyd ef yn Educational Inspector ; ar yr un pryd gweithredai fel ysgrifennydd Cyngor Amaeth Cymru. Pan ymneilltuodd o'r gwasanaeth syfyl yn 1937, daliai'r swydd o divisional Inspector mewn Addysg Amaethyddol dros Gymru a Mynwy. Ysgrifennodd lawer iawn i'r YMOFYNNYDD ; cyfrannodd i'r Chambers Encyclopaedia, ac amryw gyfnodolion yn ymdrin â materion mewn gwyddoniaeth. Ymhlith ei gyhoeddiadau ceir *Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion* a *Timber—Their Structure and Identification* (Oxford University Press)

Dywedodd Mr. Bailey, cadeirydd y cyfarfod, mai gyda theimlad o ryddhad y cyfarfyddent eleni am fod y Rhyfel yn Ewrop drosodd. Yn nherfysg yr amser anodd canolbwyntio meddwl ar waith y Coleg, ac yr oedd ganddynt hwy, aelodau'r Bwrdd Presbyteraidd, achos i ddiolch i'r Prifathro, yr Athrawon, a'r Myfyrwyr am eu gwasanaeth. Gyda gofid mawr y collent wasanaeth y Prifathro wedi wyth mlynedd o wasanaeth diflino. Cynlluniodd welliannau mawr, ond rhwystrodd y Rhyfel y gwaith. Hyderir y gellir dechrau ar yr adeiladau cyn bo hir. Rhoddodd y Prifathro iddynt ei orau bob amser, ac iddo ef yr oeddynt hwy a'r Athrawon a'r Myfyrwyr mewn dyled am gyfarwyddyd mewn amser anodd.

Am chwe mlynedd bu'r myfyrwyr yn gweithio dan anawsterau, ond yr oedd eu llafur, er hynny, yn galondid. Yn y weinidogaeth y mae'r gofynion yn ddyrus. Y mae effeithiau'r Rhyfel yn amlwg, a llawer oedd wedi colli pob cyffyrddiad â chrefydd. Dyna dasc y weinidogaeth heddiw.

Dywedwyd geiriau caredig am y Prifathro gan yr Athrawon ac aelodau o'r Bwrdd Presbyteraidd. Cyfeiriodd y Parchedig E. Rosalind Lee, M.A. at broblemau'r weinidogaeth ac at ymddeoliad y Prifathro. Croesawodd y Prifathro newydd, y Parchedig J. Islan Jones, M.A. Deuai atynt wedi ei ddiwyllio yn helaeth yn niwylliant Cymru, ac yr oedd ganddo brofiad byw o ofynion ymarferol y weinidogaeth.

Wrth roi'r adroddiad ar waith y myfyrwyr mewn llenyddiaeth Saesneg datganodd Dr. Baily ei diolch hithau i'r Prifathro am ei wasanaeth.

Aelod newydd o'r Bwrdd Presbyteraidd yw Dr. R. Ogwyn Jones, M.Sc., F.G.S., un o blant hen gynulleidfa Gellionnen, a chadeirydd y mudiad Undodaidd Cymraeg yn Llundain. Dyma'r tro cyntaf iddo ymweled â'r coleg, a hyfryd ydoedd clywed o'i enau acennion "yr hen iaith" yn sôn wrthym am ddelfrydau'r coleg. Talodd yntau ei wrogaeth i'r Prifathro a chroeso i'r Prifathro newydd.

I Mrs. W. S. Jones, dros y myfyrwyr, rhoddwyd tusw o flodau gan Miss Jenkins, merch un o'r myfyrwyr. Estynnodd Mr. Alun Page i'r Prifathro *inkstand* arian a waled ledr fel arwydd o serch y myfyrwyr tuag ato a'i gwerthfawrogiad o'i ddiddordeb tadol ynddynt hwy. Mewn geiriau'n llawn o deimlad gwresog diolchodd y Prifathro.

Talodd y Prifathro newydd, y Parchedig J. Islan Jones, M.A., ei wrogaeth yntau i'r Prifathro W. S. Jones. Dywedodd iddo ymneilltuo o'r weinidogaeth chwe mlynedd yn ôl gyda'r bwriad i dreulio'i amser yn gyfangwbl i ddarllen a myfyrio. Wedi iddo dderbyn y swydd dymunai wneud ei orau dros y Coleg a'r Myfyrwyr.

Dywedodd y Parchedig G. Grieve, B.A., ysgrifennydd y Bwrdd Presbyteraidd, air da am lwyddiant gwaith y Coleg, yn wyneb anfanteision. Siaradodd yn uchel am y Prifathro, ac estynodd groeso cynnes i'r Prifathro newydd. Cyfeiriodd at adwaith diwinyddol y dyddiau hyn. Gwelai bwysigrwydd traddodiad y Coleg mewn dysg, ac yn gymaint ag erioed y mae iddo ei le ym mywyd Cymru.

Traddodwyd yr araith i'r myfyrwyr a oedd yn gadael y Coleg gan y Parchedig J. C. Ballantyne, M.A., Llundain. Anheg fyddai ceisio gwneud crynhodeb o araith mor odidog, ac y mae gennym obaith yr ymddengys rhai paragraffau ohoni mewn rhifyn diweddarach o'r YMOFYNNYDD. "Bywyd y cartref, ein bywyd personol—dyna seiliau'r weinidogaeth yn y byd."

# Er Cof

MRS. FLORENCE WILLIAMS.

ANODD iawn dygymod â'r syniad o *farw* ynglyn â rhai personau am fod cymaint o'r "peth byw" hwnnw yn eu nodweddu. Un o'r cyfryw ydoedd Mrs. Florence Williams a drigai yn Llundain er 1934, ond a ddaeth i geisio gwellhad yn ei hen gynefin, yn nhŷ ei chwaer, Mrs. D. Meurig Jones, Penrhiwlas, Manmoel, Mynwy, ond er pob gofal a medr dynol "daeth y chwalwr i fyny," ond wedi rhai misoedd o gystudd, bu farw Mai 18, 1944, a chladdwyd hi ym mynwent gyhoeddus y Cwm, ger Ebbw Vale. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A., Cefn Coed y Cymer ; Fred W. Thomas ; Basil Williams, B.A., Cwm a D. Meurig Jones, ei brawd yng nghyfraith. Hanai Mrs. Williams o deulu a lanwodd gylchoedd pwysig yn yr ardal.

Ogylch hen gartref y teulu, Ysgubor Newydd, y mae rhyw swyn arbennig. Dyma un o'r tai a drwyddedwyd i bregethu ynddynt yng nghyfnod yr erlid ar Anghydffurfwyr. Yn achlysurol ymwelai Iolo Morgannwg â'r hen gartref hwn.

Cartref crefyddol y teulu oedd "Tŷ Cwrdd" y Cefn, ac nid eithriad oedd eu presenoldeb, er pelled y ffordd. Addysgwyd ein chwaer yn ysgol y pentref, ac ymhellach yn y Laburnum Hall, Cefn—ysgol breifat dan arolygiaeth y Parch. Owen Evans, gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd.

Ym mhen amser daeth i gysylltiad priodasol â Mr. Richard Williams, Bailey's Arms, Cwm. Ar bob llaw hyfryd yw'r dystiolaeth amdanynt fel cymdogion elusengar a'u cymwynasau'n lleng.

Gellir yn gyfiawn gymhwyso at ein chwaer eiriau'r gwr doeth, y Selyf pell, "Hi a wnaeth les, ac nid drwg holl ddyddiau ei bywyd." Dynes serchog, garedig ac enillgar, a rhyw sglein ar y cyfan a wnai —y "radiance" hwnnw ag sydd, yn ôl Dr. L. P. Jacks, mor brin ym mhlith crefyddwyr heddiw ! Claddodd ei phriod yn 1922, ond gofalodd am y gwrtaith gorau posibl i'w tri mab sydd heddiw yng ngwasanaeth eu gwlad yn y Dwyrain Pell, un yn garcharor. Cyraeddasant safleoedd o barch ac ymddiriedaeth ; yr hynaf mewn Ariandy, a'r ddau eraill wedi graddio yn Guy's Hospital. Yn wir, er eu cysur hwy y symudodd eu mam i'r Brifddinas.

Ond "daeth i ben deithio byd" iddi hi, wedi hir ddisgwyl a phryderu am weld diwedd i'r heldrin ffrom, a'r "bechgyn yn troi adref." Iddynt hwy y mae'r siom a'r golled yn fawr. Yn wir y mae'n golled, mewn llawer ystyr, ar ôl ein chwaer i gylch eang. Ni phallodd yn ei diddordeb cariadus at ardal ei mebyd hyd y diwedd, ac erys perarogl ynglyn â phob coffa am dani hi, a'r swyn nad yw'n diflannu. Daw'r elfen brudd-felys hon i leddfu'r hiraeth.

"Ei llaw a ddaw o'r ddaear
I roi gwin i'r rhai a gâr."

J.H.G.

## Priodasau.

MEHEFIN 16, yn Eglwys Ystrad, gan y Parchedig John Davies, Ficer, JOSHUA DAVIES, unig fab Mrs. Davies a'r diweddar William Davies, Brynog Mansion, Felinfach, Ceredigion a NEL DAVIES, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Timothy Davies, Penbryn, Cribyn.

GORFFENNAF 7, yng Nghapel y Groes, JOHN JONES, Pandy, Rhuddlan, Llanybydder a NELLIE DAVIES, Pantronnen, Blaencwrt, y Parchedig A. J. Martin yn gweinyddu.

## Marwgofion.

MAI 5, yn 89 mlwydd oed, JOHN JENKINS, Felinrhiwbren, Dihewyd, Ceredigion. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth, a bu'n weithiwr diwyd a didwyll. Un adeg bu ei dad ac yntau a brawd iddo ynghyd a gweithwyr eraill yn dwyn ymlaen weithfa fawr a fu'n enwog am ei gwaith da. Yr oedd yn gerddor da ac yn gystadleuydd mynych mewn Eisteddfodau. Yr oedd yn aelod yng Nghapel Ciliau Aeron, ac er pellter y ffordd parhaodd i ddod i'r gwasanaethau hyd ddwy flynedd yn ôl. Claddwyd ym mynwent Eglwys Llanerchaeron. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. T. J. Jones, Ficer y plwy. Gadawodd dair chwaer ac amryw o neiaint mewn tristwch.

[Yr oedd yr uchod mewn llaw ar gyfer y rhifyn diwethaf.—GOL.]

BU farw MARY JONES, Hafan, Y Dinas, Sir Benfro, Mai 29, yn agos i 85 mlwydd oed. Gweddw ydoedd i Evan Jones, Llundain (gynt Ffynnon Ddewi, Pantybyr, Cwmann). Ganed hi yn ymyl Llanilar, Sir Aberteifi, ond pan oedd yn ieuanc symudodd y teulu i Lundain. Am gyfnod bu yn nwyrain Llundain, yna yn Kensal Rise, ac wedi hynny yn Nightingale Lane, Clapham Common. Daeth iddi ddau ddyrnod a adawodd greithiau nas iachawyd, sef colli ei hunig fab yn Rhyfel (1914—1918) a'i phriod yn 1919. Ond ymgynhaliodd yn wrol, a chyda help ei hunig ferch wynebodd holl ofynion y fasnach a llwyddodd. Bu'n aelod yn Shirland Road a Clapham Junction. Difrodwyd ei chartref yn Llundain, ac am chwe mlynedd y rhyfel bu fyw yn nhawelwch y wlad yn y Dinas, yn Sir Benfro. Er byw dros drigain mlynedd yn y Brifddinas ni chollodd ychwaith ei thynerwch na'i mwyneidd-dra, a chadwodd yn ffyddlon i freiniau a gofynion ei chrefydd seml a phur. Bu gwasanaethau yn y cartref yn y Dinas nos Sul, yng Nghapel Clapham Junction a mynwent Abney Park, Stoke Newington prynhawn dydd Mawrth. Gadawodd ei merch (priod y Parchedig W. J. Jones, B.A., Clapham Junction) a'i hwyres a phedair chwaer a pherthnasau eraill i hiraethu ar ei hôl. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion H. Godfrey Jones, Y Dinas ; Idwal Jones, Tŷ Ddewi ; H. T. Jacob, Y Dinas ; D. W. Stephens, Shirland Road ; Gwyn Jones, Rhos-llanerchrugog ; a J. D. Jones, Trebanos (nai yr ymadawedig).

HWYRDDYDD, Gorffennaf 29, yn dra sydyn, MARY ANNE LLOYD, annwyl briod William Lloyd, Blue Bell, Llandysul, yn 65 mlwydd oed. Yng nghorff y dydd ymddangosai'n debyg i arfer, yn llawn difyrrwch a sirioldeb, ond yn yr hwyr cymerwyd hi'n glaf, ac ymhen ychydig funudau peidiodd yr anadl. Treuliodd yr hanner gyntaf o'i bywyd yn ardal Llwynrhydowen, am rai blynyddoedd ym Mhontsian ac am rai yng Ngelligron. Aelwyd ddiddig, ddifyrrus oedd yr aelwyd y maged hi arni. Yn y blynyddoedd hynny bu'n ffyddlon gyda'r achos yn Llwynrhydowen, yn y cwrdd, a'r ysgol Sul, a'r ysgol gân. Pan briododd aeth i fyw i Landysul, ac nid oerodd ei serch at yr achos yn Llwynrhydowen. Nid syndod hynny gan fod llwch ei rhieni a'i mab, Tommy, yn gorwedd yma. Benyw siriol, garedig ydoedd, ac y mae ei cholli yn ergyd drom i'r teulu. Gadawodd i wylo ei cholli briod, dau fab, a nifer o berthynasau eraill. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins, E. Myfyr Evans, a D. Rhydderch, B.A.

# Nodion yr Eglwysi.

CYMYNRODD.—Gadawodd y diweddar Evan Jones, Banc, Abergorlech, £50 i Gapel y Groes.

COLEG PRESBYTERAIDD CAERFYRDDIN.—Bydd Coleg Caerfyrddin yn agor am y tymor Hydref ar yr ail o fis Hydref nesaf. Dymunol iawn fyddai cael rhai myfyrwyr Undodaidd i mewn. Y mae'r awdurdodau yn cynnig cymorth ariannol i'r cyfryw—sef Ysgoloriaeth Philemon Moore o ryw £25 y flwyddyn. Bydd y Bwrdd Presbyteraidd hefyd yn helpu a'r Gymdeithas Gymraeg yn gwneud ei rhan i'r un cyfeiriad. Gellir cael manylion pellach oddiwrth ysgrifennydd y Bwrdd Presbyteraidd, y Parch. G. J. G. Grieve, B.A., 92, Hornsey Lane, London, N.6., neu oddiwrth y Prif-athro y Parch. J. Islan Jones, M.A., Tanlan, Cribyn, Lampeter.

Fe all efrydwyr, o dan nawdd y Coleg, astudio am radd B.A., neu B.Sc. yn un o golegau'r Brifysgol, ac wedi hynny am y B.D. yng Ngholeg Caerfyrddin ; neu ynteu, gallant ddechrau ar unwaith i astudio yng Nghaerfyrddin am ddiploma mewn diwinyddiaeth (cwrs o bedair blynedd).

Cynigir amodau arbennig i rai a fu yn y fyddin neu ar "wasanaeth cenedlaethol" yn ystod y rhyfel. Dyma'r prif bethau a ddysgir yn y Coleg :—Gwybodaeth Feiblaidd a Diwinyddiaeth, Saesneg, Cymraeg, Areithyddiaeth, Groeg, Hebraeg, Hanes Crefydd, ac Athroniaeth (yn ei gwahanol ganghennau). Perthyn i'r Coleg bedwar proffeswr heblaw'r prif-athro, a gwneir pob ymdrech i hwylusu gwaith a sicrhau llwyddiant y myfyrwyr.

Y GRONFA FAWR.—Y mae'r Parch. J. Islan Jones wedi bod yn annerch un-ar-ddeg o'n heglwysi ni yn Sir Aberteifi ar y Gronfa Can mil o bunnau sydd yn awr ar waith gyda'r enwad. Y mae pob un o'r eglwysi hynny wedi addo cynorthwyo gyda'r gwaith, a rhai ohonynt wedi dechrau.

Yn hyn o beth, y mae eglwysi De-ddwyrain Cymru wedi achub y blaen ar Sir Aberteifi, a phob un ohonynt wedi gosod nod (*target*) o'i blaen i gyrraedd ati. Fe ddylai darllenwyr yr YMOFYNNYDD deimlo diddordeb yn y ffigurau. Wele hwynt: —

Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, £200 ; Highland Place, Aberdâr, £200 ; Abertawe, £400 ; Caerdydd, £200 ; Caerfyrddin, £60 ; Cefncoed, £400 ; Merthyr, £50 ; Mountain Ash, £50 ; Nottage, £100 ; Penard, £50 ; Pen-y-bont, £50 ; Pontypridd, £200 ; Gellionnen a'r Graig, Trebanos, £1,200 ; Treorchi, £50 ; Y Wig, £25. Rhwydd hynt i'r Gronfa !

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, am 4.15 p.m., ar y Sul cyntaf yn y mis. Diolchwn yn fawr i'r Parch. T. L. Jones am ddod atom ym mis Gorffennaf a rhoddi i ni bregeth fywiog ar y brwydro sydd yn angenrheidiol dros Gristionogaeth yn y byd heddiw. Edrychwn ymlaen at ei weled eto cyn bo hir. Yn y cwrdd eglwys wedi'r gwasanaeth clywsom gan y Trysorydd nad yw casgliadau y flwyddyn hon wedi bod yn foddhaol. Rhaid i ni ymdrechu gwella'r sefyllfa cyn diwedd y flwyddyn. Blin iawn oedd gennym glywed fod Mr. Jack Williams yn yr ysbyty yn Aberdeen. Gobeithiwn yn fawr y bydd yn holliach eto yn fuan. Trefn y dyfodol : Medi—y Parch. Aubrey Martin, B.A. ; Hydref—Y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. ; Tachwedd—Y Parch. E. D. Davies ; Rhagfyr—Y Parch. D. Jacob Davies, B.A.

TREBANOS.—Cafodd yr Ysgol Sul ei thê Llungwyn yng Nghapel Gellionnen. Rhwng y byrddau llawn a'u gweinyddesau serchog, rhyddid y mynydd a'r thês yr haul, cafodd cynulliad lluosog eleni eto flâs ar yr wyl.

AR Fai 30, daeth gwledd arall o dê i ddeiliaid yr Ysgol Sul—hwy oedd y *guests of honour*, ond yr oedd yno wynebau hoff nas gwelir bob amser yn yr Ysgol Sul. Dathliad arbennig oedd hwn o briodas arian Mr. a Mrs. Tom Jones, Dolgranog, Graig Road. Wedi'r wledd ar y byrddau cafwyd gwledd o adrodd a chanu, ymgomio a dawnsio a chwarae. Y plant a baratôdd y rhaglen, ac yr oeddynt yn frwdfrydig i wneud eu rhan. Cynorthwywyd gan Mrs. Ogwyn Bowen. Gyda Mr. a Mrs. Jones a'u dwy ferch—Mrs. Spiers (yn awr yn y W.R.N.S.), a Mair—y mae ein dymuniadau gorau ni i gyd.

AR Fai 31, wele eto wledd arall—Swper a drefnwyd gan ieuenctid y gynulleidfa i groesawu Paratrooper Glyn Lewis, Heol y Llwyni, yn ôl o'i gaethiwed fel carcharor rhyfel yn yr Almaen oddiar D-day. Yn eistedd gydag ef yr oedd eraill o garcharorion dychwel yr ardal a rhai o blant yr eglwys o'r fyddin a'r llynges. Llawenydd eu gweled yno, ac edrychir ymlaen at y wledd pan ddont yn ôl i gyd. Cafwyd cyngerdd o adrodd a chanu ac amser pleserus ar lawr y neuadd.

AR Fehefin 4, cyfranogodd aelodau Cynghrair y Gwragedd ac eraill o Swper a roddwyd gan Mr. a Mrs. Evan Phillips, Caeismaen, i ddathlu eu priodas arian. Bydd dweud mai Mrs. Phillips a drefnodd y wledd yn ddigon i roi syniad lled dda am lawnder y byrddau, a gofalodd y chwiorydd, yn eu ffordd neilltuol hwy, fod hwyl a llawenydd yn coroni'r wledd. Gyda Mr. a Mrs. Phillips a'r plant, dau ohonynt (Sammy a Donald) yn y fyddin, y mae ein dymuniadau gorau ni i gyd.

# Adolygiad.

*The Welsh Pattern.* Cyhoeddir gan y Llanmadoc Religion and Life Fellowship. Pris Swllt. I'w gael oddiwrth y Parchedig J. Selwyn Roberts, 122, Wood Road, Pontypridd, neu'r Llyfrwerthwyr.

O DAIR cynhadledd yn Llanmadoc, Gŵyr, yng Nghorffennaf 1942, 1943, a 1944 y daw cynnwys y llyfryn hwn—rhyw chwech o bapurau ar bynciau crefyddol a chymdeithasol yn ymwneud â bywyd Cymru. Da gweld y fath ddefnydd o groeso Llanmadoc i gynnal cynadleddau fel hyn. Rhoddir yr adeilad a'i gyfleusterau gan yr Undodwr pybyr, J. W. Burr, Ysw., aelod o gynulleidfa Abertawe, a phe na bai ond y gynhadledd flynyddol hon yn cwrdd yno byddai hynny'n profi fod rhodd Mr. Burr eisoes yn dwyn bendith.

Wrth wraidd y llyfr y mae dau argyhoeddiad. (1) Yr angen am sylfaen grefyddol i'r bywyd cymdeithasol. (2) Fod Cymru yn estyn cyfle neilltuol i ddod a chymdeithas yn ôl ar y sylfeini crefyddol.

Ceisir yn y gyfrol dynnu pictiwr o'r bywyd a'r cymeriad Cymreig, a dilynir gan Mr. Pennar Davies, Aberpennar, y cyswllt rhwng y traddodiad Cristnogol a'r traddodiad cymdeithasol fel yr ymddengys yn hanes Cymru. Dengys Mr. Davies fel y mae'r cyfnewidiadau cymdeithasol diweddar wedi llychwino'r patrwm oherwydd methiant yr arweinwyr i gwrdd â'r sefyllfa. Y canlyniad ydyw peryglu awdurdod crefydd a dyfodol y gwareiddiad Cymreig.

Gan y Parchedig J. Selwyn Roberts ceir diagnosis o'r afiechyd cymdeithasol yn ei bapur, "The Devastation of Recent Years." Gwel ef yn ystod y ddwy genhedlaeth ddiwethaf ddylanwadau estron yn darostwng cydwybod ac ysbryd traddodiadol y Cymry. Gwreiddyn y drwg, yn ei farn ef, yw dibyniaeth bywyd economaidd Cymru ar fywyd Prydain Fawr—beth a ddechreuodd yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Safbwynt yr ysgrifennydd ydyw safbwynt y World Conference of the Christian Churches (Rhydychen, 1937)—"Ffurfiwyd canolfannau o allu economaidd sy'n ddigyfrif i unrhyw gynrychiolaeth o'r werin bobl, ac mewn ymarferiad y maent yn orthrwm ar fywydau'r bobloedd." Yr effaith ar Gymru yn y blynyddoedd cyn y rhyfel oedd colli 400,000 o'r bobl ieuainc. Rhwng 1928 a 1938 ni bu diweithdra dan 20 y cant a chododd i 38 y cant. Yn ystod y blynyddoedd hyn yr oedd chwarter poblogaeth Cymru yn ddiwaith. Dioddefodd bywyd cymdeithasol Cymru oddiwrth y "dynion dwad"—dynion anniwylliedig eu hunain ac ni allent wreiddio yn y traddodiad Cymreig. Yr unig linc gyffredin rhyngddynt yw'r diddordeb economaidd. Ceir ymdriniaeth helaeth hefyd gan yr ysgrifennydd hwn o'r bywyd gwledig a'i ddirywiad.

Dilynir ef gan y Parchedig Emrys Jones, Tylorstown, sy'n traethu ar "Eclipse of Christian Leadership." Bwria gipdrem yn ôl, a gwel holl diriogaethau bywyd y werin dan awdurdod yr Eglwys. Yn nhreigl amser y mae tiriogaeth ar ôl tiriogaeth yn gwrthod yr awdurdod, a cheisia'r ysgrifennydd ateb—paham?

"Wales with a well-organised, co-ordinated, co-operatively national system would form one region in the wider British community." Dyna bwnc Dr.

T. Hughes Griffiths, Abertawe, yn ei bapur ar "The Industrial and Social Pattern for Tomorrow."

Yn ei ddilyn y mae'r Athro J. Oliver Stephens, Coleg Caerfyrddin, ar y testun, "The Social Dynamic of the Gospel." Ceir ganddo olwg ar y syniadau diweddar am ddysgeidiaeth Iesu. Yn ei farn ef, y mae esboniad Cristnogion rhyddfrydig y bedwaredd ganrif ar bymtheg o Deyrnas Dduw yn rhy ddaearol, ac y mae esboniad dilynwyr Barth yn rhy arall-fydol. "Our minds have been troubled on being told that we had, perhaps, misunderstood His message. We are comforted therefore by what the scholars now tell us and do not lack appreciation of what we have learnt from the schools of thought to which we have referred. If Schweitzer has over-emphasised the eschatological element he has taught us that Jesus taught in terms of a pre-scientific world-view. If the Barthians have transported the Kingdom to the other world they have made clear that the Kingdom is of God not of men. And if the liberal thinkers had, at one time, too modern a conception of Jesus they rightly thought of the Kingdom as central to the teaching of our Lord." A ddisgwylir oddiwrthym, medd yr Athro, ydyw ystyried Iesu yn ei ffrâm hanesyddol yn y fath fodd fel y derbyniwn ysbrydiaeth i weithredu yn ein cyflwr presennol yn ei ysbryd ef.

Cesglir cenhadaeth y llyfr yn y papur olaf, "Christian Strategy for Today," gan y Parchedigion Malcolm Spencer ac Austin Evans, ac y mae'n bennod feistrolgar, yn alwad i waith.

Anogir yr ieuenctid sy'n fyw i broblemau'r dydd ddarllen y llyfr hwn. Byddai'n dda iddynt wneud ei benodau'n destun yr ymdrafod yn eu cyfarfodydd. Cânt ynddo gyfarwyddyd ac agoriad meddwl.

Cymhellir y llyfr am ei fod yn waith pobl sy'n teimlo i'r byw fod tystiolaeth yr Eglwys mor anelwig yn y cyfnod hwn o ail-adeiladu. Cred yr ysgrifenwyr yn ddiysgog mai trwy gyfuno crefydd a bywyd yng Nghymru y gellir cadw yr ymwybod cenedlaethol yn fyw ac yn iach. Mynnant blanio dyfodol Cymru ar adnabyddiaeth well o'i gorffennol.

Wedi darllen y llyfr drwyddo yn ystyriol ac yn ymwybodol o'i werth cyfyd cwestiwn neu ddau yn y meddwl :

1. A ydyw'r ysgrifennwyr hyn yn edrych ar y gorffennol trwy wydrau lliw nes ymddangos o bethau iddynt yn wahanol i'r hyn yr ydynt mewn gwirionedd ?

2. Ai gwir yr haeriad fod Cymru "cyfnod y Saint" yn Gymru Gristnogol ? Gweler y papurau cyntaf.

3. Ai dim ond drygau a ddaeth i mewn i fywyd Cymru drwy'r Chwyldro Diwydiannol ? Gweler yr ail bapur.

4. Y mae un peth yn sicr. Ni ellir gwahanu problem Cymru oddiwrth broblem gyffredinol y byd heddiw. Y mae iechydwriaeth Cymru yng nghlwm wrth iechydwriaeth byd-lydan. Dyna paham y gofynnir—a ydyw syniad yr ysgrifennwyr hyn am genedlaetholdeb Cymru yn ymddangos i raddau yn rhy gul ?

J.D.J.

---

*Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.*